OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 Rhif (Cy. )

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Rheoliadau Traffordd yr M4 (Ffyrdd Ymadael tua'r Dwyrain a thua'r Gorllewin wrth Gyffordd 33 (Capel Llanilltern), Caerdydd) (Terfyn Cyflymder 40 MYA) 2018

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn sy'n gosod terfyn cyflymder uchaf o 40 milltir yr awr (yn lle'r terfyn cyflymder cyffredinol o 70 milltir yr awr a osodir ar draffyrdd gan Reoliadau Traffig Traffyrdd (Terfyn Cyflymder) 1974 (O.S. 1974/502)) ar y darnau o ffyrdd ymadael traffordd yr M4 a bennir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

Ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol llawn ar gyfer yr offeryn hwn gan mai am resymau diogelwch ar y briffordd y'i gwneir ac ni fydd yn cael unrhyw effaith ar gostau busnes.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 Rhif (Cy. )

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Rheoliadau Traffordd yr M4 (Ffyrdd Ymadael tua'r Dwyrain a thua'r Gorllewin wrth Gyffordd 33 (Capel Llanilltern), Caerdydd) (Terfyn Cyflymder 40 MYA) 2018

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *17 Mai 20182018* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *25 Mai 2018* |
| *Yn dod i rym* | *18 Mehefin 2018* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 17(2), (3) a (3ZAA) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), ac ar ôl ymgynghori ag unrhyw gyrff cynrychioliadol y tybiwyd eu bod yn briodol yn unol ag adran 134(2) o'r Ddeddf honno, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

**Enwi, cychwyn a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Traffordd yr M4 (Ffyrdd Ymadael tua'r Dwyrain a thua'r Gorllewin wrth Gyffordd 33 (Capel Llanilltern), Caerdydd) (Terfyn Cyflymder 40 MYA) 2018 a deuant i rym ar 18 Mehefin 2018.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "traffordd yr M4" ("*the M4 motorway*") yw Traffordd yr M4 Llundain i Dde Cymru.

(**1**) 1984 p. 27. Diwygiwyd adran 17(2) gan baragraff 28(3) o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22) a chan baragraff 25 o Atodlen 4 i Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p. 40) ac Atodlen 8 iddi. Mewnosodwyd adran 17(3ZAA) gan adran 26(2) o Ddeddf Cymru 2017 (p. 4).

**Gosod terfyn cyflymder**

**2.** Ni chaiff neb yrru cerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o draffordd yr M4 a bennir yn yr Atodlen.

*Ken Skates*
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru
17 Mai 2018

# YR ATODLEN
Rheoliad 2

## Y DARNAU O DRAFFORDD YR M4

Y darnau a ganlyn o draffordd yr M4 wrth Gyffordd 33 (Capel Llanilltern) yn Ninas a Sir Caerdydd—

(a) y ffordd ymadael tua’r gorllewin sy’n ymestyn o bwynt 275 o fetrau i’r dwyrain o’i chyffordd â chylchfan yr A4232 Capel Llanilltern hyd at ei chyffordd â’r gylchfan honno; a

(b) y ffordd ymadael tua’r dwyrain sy’n ymestyn o bwynt 200 metr i’r gorllewin o’i chyffordd â chylchfan yr A4232 Capel Llanilltern hyd at ei chyffordd â’r gylchfan honno.